Y FANER

Awst 8, 1968

n ffres hefyd yn
ı ar wythnos gy-
ymraeg ar y teledu'
Ddrama, lle mae'r
ansoddi drama hir
£100 a thlws yr eis-
gystadleuaeth am
fler naws darn a
neu ddarn o'r Ys-
lae'r ddwy raglen
v cyflwyno gan ac-
dol hefyd yn hynod
ae yn adran yr ad-
adleuthau amheuth-
is cyflwyno dethol
deialog ddramatig.
ıbr am ragori yn yr
gelfyddydau cain a
n wobr mewn dwy
i grefftwyr. Yn
rniaeth cyngir med-
nllun o adeilad new
ıddu wedi eu cyhoeddi-
ymru yn ystod y
o flaen yr Eisteddf-
'ngyfarch pwyllgor-
int ar eu gwaith yn
estr hon.

· ifanc

pobl i weinidogion
eglwysi fod heb ar-
ı politicaidd o
rnant pan fo gwein-
riad yn codi ei lais
yw anghyfiawnder
neu gilydd. Ond
lladau ac unigolion
Ffydd Gristnogol
ın fo pobl ieuainc
a yn cael eu llusgo
:oedd a'u bwrw i
atfaelu eu heiddo
yn sefyll tros haw
ymraeg? Barn un o
r golofn hon yw y
ogion yr Efengyl
:dd le gweir erled-

newydd, a gallyn peryclach o lawer
iawn hefyd." Gwir pob gair, Mr
Evans. Yn ddiamau, y mae Mr. Wil
son yn sylweddoli'n ddifrifol iawn
erbyn hyn fod seddau cedyrn Llafur
yng Nghymru yn gwegian o dan hyr-
ddwyntoedd y deffroad cenedlaethol,
ac yn sylweddoli fod yn rhaid eu
cadw i gyd yn yr Etholiad Cyffredin-
ol nesaf, heb os. Ac o sylweddoli
hynny, y mae'n gorchymyn i'w weis-
ion arlwyo gwledd, costied a gostio,
ar gyfer siroedd Cymru, a chewch
weld y Dywysogaeth yn cael popeth
posibl o'r coffrau yn San Steffan cyn
hyn i'r etholiad nesaf.

Y mae'r Ddraig o'r diwedd yn
brathu ac yn cripio'n egr iawn, ac yn
ei sefydlu ei hun yn elyn peryglus i'r
mudiad Llafur yng Nghymru. Y
mae'r Ddraig, a fu'n symbol ar faner
a bathodyn, wedi dod yn rym tan-
llyd, ac y mae'r Prif Weinidog yn syl-
weddoli hynny, heb os.

Ond tybed a yw'r Swyddfa Gym-
reig a'r Penaethiaid eraill wedi di-
huno'n rhy ddiweddar i gadw llawer
o seddau Llafur y tro nesaf? Byddaf
yn meddwl, er enghraifft, am y rhai
sy'n ddeunaw oed heddiw, ac yn
egin — aelodau o Blaid Cymru, a
hwythau mewn oed i gael eu pleid-
lais yn yr etholiad nesaf. Ac yn
meddwl eilwaith am y posibilrwydd
o weld yr hawl i'r rhai deunaw oed
roddi'r groes yn y bwth y tro
hwnnw? Ond y mae'n amheus gen-
nyf a welir hynny'n digwydd hefyd
gyda Chenedlaetholdeb mor danllyd
yng Nghymru a'r Alban erbyn hyn?
Boed hynny fel y bo credaf bod y
deffroad yng Nghymru wedi talu ar
ei ganfed yn barod, a'r tân ond me-
wn yn dechrau cynnau drwy'r sir-
oedd.

CREFYDD FARW

Darllenais llythyr y Parch. Trebor
Lloyd Evans, a sylwais ar y pwynt-
iau ynddo, o'r modd yr oedd ef yn
ceisio malu fy sylwadau ar Undeb
yr Annibynwyr yng Nghymru, a'u
cyfarfyddiad ym Mhen-y-groes, yn
Arfon yn ddiweddar, a theimlais
awydd dweud gair ymhellach ar y
pwnc yma, er nad wyf yn credu
mewn clebran yn y Wasg wrth draf-
od yr egwyddor fwyaf sydd yn ein
byd, yr Un Gristionogol. Ond, carwn
ddweud yn fyr fel hyn, bod yr Un-
deb ym Mhen-y-groes wedi bod mor

# Cydymladd y canser

## £10,000 gan Tenovus

Mae'r cynllun sy'n gysylltiedig â thriniaeth belydrol o ganser yng ngholeg diweddaraf prifysgol Cymru ac un o ysbytyau Caerdydd wedi derbyn grant o £10,000 oddi wrth Tenovus, sefydliad yng Nghaerdydd.

Datblygodd y gwaith o gysylltiad pwysig rhwng Adran Ffiseg Gymwysiedig Athronfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru a Chanolfan De Cymru o driniaeth belydrol Ysbyty'r Felindre, Eglwys-wen, Caerdydd.

Pwrpas y gwaith yw datblygu defnydd ac offer i fesur yn gywir y pelydr a dderbyn y claf o dan driniaeth belydrol. Dr. Ben Thomas sy'n llywio'r gwaith yn athrofa a Mr. R. G. Wood a Mr M. W. Harper sydd yn yr ysbyty.

### PEIRIANNAU PWYSIG

Bydd y grant o £10,000 yn sicrhau parhad y cydweithio ac yn helpu cynllunio peiriannau pwysig, bydd hefyd yn cynnal myfyriwr ymchwil ac yn talu am ddefnyddiau angenrheidiol. Mae technegwr yn awr yn adeiladu'r peiriant cyntaf yng ngweithdy Adran Ffiseg Gymwysiedig yr athrofa.

Mae mantais y drefn newydd i'w weld yn barod oherwydd caniata'r mesurau a oedd gynt yn amhosibl. Er enghraifft, tu mewn i'r siambr ocsigen pwysedd uchel, a hefyd o fewn i gilfachau mewnol y corff. Sicr hefyd yw cywirdeb y mesurau, oherwydd gall y defnydd fod o unrhyw ffurf a maint yn enwedig yn fach iawn; mae'n ymateb fel meinwe corff i belydr. Gobeithir y daw'r dechneg sy'n cael ei defnyddio yn barod yn gymhwysiad arferol yn yr ysbyty.

GALW AM